**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad Ymchwiliad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Wasanaethau Orthodontig yng Nghymru**

**Awst 2014**

---

1. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei adroddiad ar yr ymchwiliad i wasanaethau orthodontig yng Nghymru. Rwy'n falch bod y Pwyllgor yn cydnabod y cynnydd sylweddol a wnaed yn dilyn yr adolygiad annibynnol o wasanaethau orthodontig yn 2010 gan yr Athro Stephen Richmond, Athro Orthodonteg yn Ysgol Ddeintyddiaeth Prifysgol Caerdydd, a'r ymchwiliad dilynol ar y ddarpariaeth orthodonteg gan y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol yn 2011.

2. Mae argymhellion y ddau adolygiad wedi helpu i lywio'r cyfeiriad polisi ar gyfer y ddarpariaeth orthodonteg fel yr amlinellir yn *Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Iechyd y Geg* gan Lywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2013. Mae ymchwiliad diweddaraf y Pwyllgor yn cefnogi hyn.

3. Mae Rhwydweithiau Clinigol a Reolir wedi cael eu sefydlu ledled Cymru yn y De-ddwyrain, y De-orllewin a'r Gogledd (mae cysylltiadau rhwng Powys a Rhwydwaith Clinigol a Reolir y Gogledd). Cyrff cynghori yw'r Rhwydweithiau Clinigol a Reolir ac maent yn cyfrannu at waith y Fforwm Cynghori Strategol ar gyfer Orthodonteg a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2011 i ddatblygu argymhellion Ymchwiliad y Pwyllgor yn 2011 a Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru.

4. Rôl y Rhwydweithiau Clinigol a Reolir yw gweithio gyda'r Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) i osod llwybrau clinigol priodol a bod yn gyfrifol am safonau priodol mewn gofal clinigol. Os bydd angen nas diwallwyd am ofal orthodontig, dylai'r BILlau, mewn cydweithrediad â'r rhwydwaith clinigol lleol, brofi'r defnydd o gyfuniad sgiliau priodol i asesu anghenion a blaenoriaethau ar gyfer gofal.

5. Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a datblygiad Rhwydweithiau Clinigol a Reolir wedi creu proses llawer mwy effeithiol ar gyfer rheoli atgyfeiriadau ac wedi llywio gwelliannau mewn ansawdd a chanlyniadau. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad sylweddol o 59% yn nifer yr 'asesiadau ac adolygiadau' a chynnydd o 6% (533 o gleifion) yn nifer y cleifion sy'n cael triniaeth.

6. Fodd bynnag, mae'r Rhwydweithiau Clinigol a Reolir wedi bod yn gweithio am gyfnod cymharol fyr (ers 2011) ac mae arbedion effeithlonrwydd pellach i'w cyflawni yn sgil lleihau atgyfeiriadau cynnar, lluosog ac amhriodol; monitro system gadarnach o sgoriau Mynegai Sgoriau Asesu Cymheiriaid; a sicrhau bod contractwyr yn cydymffurfio â systemau sicrhau ansawdd a gofynion adrodd.

7. Yn ddiweddar cyhoeddodd y Fforwm Cynghori Strategol ar gyfer Orthodonteg ei adroddiad blynyddol (2 Mehefin 2014) yn amlinellu'r cynnydd y mae'r

Rhwydweithiau Clinigol a Reolir wedi'i wneud o ran datblygu ansawdd clinigol a datblygu trefn effeithiol ar gyfer casglu data i ddylanwadu ar benderfyniadau comisiynu.

8. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Athro Richmond wneud asesiad pellach a diweddaru'r data yr archwiliwyd ac yr adroddwyd arno yn flaenorol yn 2010. Lle bo'n ofynnol, bydd Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau ychwanegol ac yn ystyried defnyddio pwerau rheoleiddio i ddarparu gwasanaeth mewn ffordd fwy effeithiol fyth. Er fy mod yn cydnabod y gwelliannau sylweddol hyd yn hyn, rwy'n derbyn bod modd gwneud arbedion effeithlonrwydd pellach i helpu i ddarparu gwasanaeth cynaliadwy a theg o ansawdd uchel sydd hefyd yn cynnig gwerth am arian.

9. Isod, nodir fy ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad.

**Argymhelliad 1**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol weithio gyda byrddau iechyd lleol a rhwydweithiau clinigol a reolir i ddatblygu trefniadau monitro cadarn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyson â gofynion o ran cofnodi canlyniadau triniaeth.

**Ymateb: Derbyn**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau interim i'r BILlau ym mis Mawrth 2011 ynghylch comisiynu gwasanaethau orthodontig mewn ffordd effeithiol ac effeithlon. Mae'r canllawiau'n ymdrin ag ystod o faterion gan gynnwys: defnyddio a dehongli data ar gyfer rheoli contractau'n well, yn enwedig mewn perthynas ag asesu/adolygu/cychwyn triniaeth; Adolygiadau Asesu Cymheiriaid a gofynion gwybodaeth contractau penodol. Mae'r adborth gan y BILlau a'r Rhwydweithiau Clinigol a Reolir yn cadarnhau bod y canllawiau'n cael eu defnyddio a'u bod yn gweithio'n dda. Ailgyhoeddwyd y canllawiau i'r BILlau ym mis Mai 2013.

Caiff canlyniadau ansawdd orthodontig eu mesur drwy Adolygiadau Asesu Cymheiriaid. Mae gofyn bod practisau'n asesu cyfran o'u triniaeth ac yn cofnodi'r canlyniadau. Mae hyn yn darparu data monitro a llywodraethu clinigol i'w asesu gan Wasanaethau Deintyddol Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG. Mae'r BILlau yn defnyddio'r data hwn i fonitro'u contractau.

Yn dilyn adolygiad diweddaraf yr Athro Richmond, rhagwelir y bydd y BILlau yn cael canllawiau ychwanegol ac atodol. Bydd y Fforwm Cynghori Strategol ar gyfer Orthodonteg yn parhau i fonitro cynnydd y Rhwydweithiau Clinigol a Reolir wrth iddynt aeddfedu fel rhan o'i raglen waith reolaidd.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 2**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gadarnhau pryd y caiff y system atgyfeirio electronig ei chyflwyno, a nodi'r camau gweithredu y gall byrddau iechyd lleol a rhwydweithiau clinigol a reolir

eu cymryd i nodi patrymau o ran atgyfeiriadau amhriodol, a chynllunio a chyflawni ymyriadau addas wedi'u targedu.

**Ymateb: Derbyn**

Yn ddiweddar, cyhoeddais gyllid o £700,000 o'r Gronfa Technoleg Iechyd a Theleiechyd i helpu i gysylltu practisau deintyddol â rhwydwaith GIG Cymru. Fel rhan o'r fenter hon, bydd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn gweithio gyda'r BILlau a phractisau deintyddol y GIG i ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau atgyfeirio electronig newydd i wneud y system atgyfeiriadau orthodontig yn fwy effeithlon ac effeithiol. Bydd cysylltedd ychwanegol yn caniatáu i ddeintyddion y GIG weld gwybodaeth a chanllawiau pellach ar ystod eang o faterion clinigol. Disgwylir cwblhau'r prosiect ym mis Mawrth 2015.

Ceir cydnabyddiaeth y gall natur wledig ac amseroedd teithio hir achosi anawsterau i gleifion sy'n cael cyfnodau hir o driniaeth orthodontig. Mae Llywodraeth Cymru yn annog y BILlau i gomisiynu gwasanaethau orthodontig drwy ddull 'prif ganolfan a lloerennau', gan ddefnyddio arbenigwyr, Deintyddion â Sgiliau Uwch a therapyddion orthodontig mewn canolfannau lleol i ddarparu gofal. Gall datblygu technoleg ymhellach, e.e. delweddu ac argraffu 3D ac ymgynghori teleddeintyddol, leihau teithio diangen ac amseroedd aros.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd y costau ynghlwm â cyflwyno gwasanaeth atgyfeiriadau uwch yn cael eu hystyried fel rhan o'r fenter beilot.

**Argymhelliad 3**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi'r camau y gall byrddau iechyd lleol a rhwydweithiau clinigol a reolir eu cymryd, ynghyd ag amserlenni cysylltiedig, er mwyn gwella amseroedd aros ym mhob ardal bwrdd iechyd lleol, a nodi'r trefniadau monitro y bydd yn eu rhoi ar waith.

**Ymateb: Derbyn**

Ceir amrywiadau rhanbarthol o ran pa mor hir y bydd yn rhaid i unigolyn aros am driniaeth sylfaenol ac eilaidd/ysbyty. Hyd yn oed o fewn ardaloedd, mae rhai practisau ac ysbytai yn cynnig mynediad da, ond mae'n rhaid i gleifion aros mewn eraill. Mae angen i ni edrych yn agosach ar y rhesymau dros hyn.

Mae cymhlethdodau ynghlwm ag amrywiadau mewn rhestrau aros. Mewn rhai achosion, ceir rhestrau hir oherwydd atgyfeiriadau cynnar, dyblyg neu amhriodol a ffactorau eraill. Mae'r BILlau bellach yn defnyddio Rhwydweithiau Clinigol a Reolir i weld pa gleifion a atgyfeiriwyd i fwy nag un orthodontydd neu a atgyfeiriwyd cyn bod angen er mwyn rhyddhau capasiti; mae'r ddau ffactor yn cyfrannu at hyd rhestrau aros.

Mae nifer y myfyrwyr ôl-raddedig sy'n ymuno, sy'n digwydd ddwywaith bob tair blynedd, yn dylanwadu ar yr amseroedd aros mewn nifer o ysbytai. Yn y flwyddyn pan na fydd myfyrwyr yn cael eu derbyn , mae cleifion yn cronni oherwydd bod llai o gapasiti triniaeth.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfarwyddyd pellach i'r BILlau ar reoli rhestrau aros orthodonteg. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod sicrhau y caiff rhestrau aros eu safoni, eu bod yn cynnwys setiau data gofynnol gyda'r gallu i wirio'n rheolaidd ynghylch dyblygu cleifion a phatrwm atgyfeiriadau, ynghyd â defnyddio systemau canolog i reoli atgyfeiriadau, yn cael effaith gadarnhaol ar amseroedd aros.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 4**
Mae'r Pwyllgor yn argymell, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth a roddir i gleifion yn cyrraedd safon ddigonol, y dylai'r canllawiau a gyhoeddir i fyrddau iechyd lleol gan y Prif Swyddog Deintyddol mewn perthynas â chomisiynu gwasanaethau orthodontig gynnwys arfer gorau ar gyfer sefydlu a monitro gwasanaethau o'r fath.

**Ymateb: Derbyn**

Un o'r elfennau allweddol wrth asesu ansawdd gofal orthodontig yw canlyniad y driniaeth. Mae'n bwysig mesur newid a chanlyniad ymyrraeth glinigol i bennu pa mor effeithiol fu'r broses o ymyrraeth. Fel rhan o'u contract, dylai ymarferwyr gofnodi eu sgoriau Adolygiadau Asesu Cymheiriaid ar y dechrau ac ar y diwedd ar gyfer o leiaf 20 o driniaeth cyflawn neu 2 y cant o gyfanswm eu llwyth achosion. Yna dylid asesu'r mesurau ansawdd drwy'r Rhwydweithiau Clinigol a Reolir.

Mae Rhwydweithiau Clinigol a Reolir ledled Cymru yn parhau i gynnig cyfrwng i ddod â swyddogion y BILlau a chlinigwyr o ofal sylfaenol ac eilaidd ynghyd i rannu a datblygu arfer gorau. Mae Rhwydweithiau Clinigol a Reolir yn cyfrannu at waith y Fforwm Cynghori Strategol ar gyfer Orthodonteg ar ddatblygu polisi orthodontig cenedlaethol ar gyfer Cymru.

Bydd pwysigrwydd monitro canlyniadau effeithiol yn cael ei gynnwys yn y canllawiau pellach y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyhoeddi.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 5**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gymryd camau i ddiwygio trefniadau talu ar gyfer gwasanaethau orthodontig er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan y Pwyllgor.

**Ymateb: Derbyn**

O dan delerau contract y GIG, dyfernir Unedau Gweithgarwch Orthodontig pan fydd yr orthodontydd yn cyflawni asesiad orthodontig ac yn cychwyn cyfnod o driniaeth. Mae'n rhaid hysbysu Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG pan fydd achos yn cael ei asesu, ei ddechrau, ei gwblhau neu ei gau fel y gall y BILl fonitro'r cytundeb. Ymddengys ar hyn o bryd nad yw nifer sylweddol o gyfnodau o driniaeth wedi'u cwblhau. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r BILlau dalu ddwywaith am yr un

claf os bydd yn dechrau triniaeth gydag un darparwr ac yn cwblhau triniaeth gyda darparwr arall. Rydym yn ystyried newidiadau i'r Rheoliadau i gysylltu cyfran o'r taliad â'r adeg pan ddaw tystiolaeth i law bod triniaeth wedi'i chwblhau.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Daw'r costau o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 6**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Gweinidogion Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol adolygu'r canllawiau sydd ar gael i gefnogi byrddau iechyd lleol wrth ymrwymo i gontractau ar gyfer darparu gwasanaethau orthodontig sy'n ystyried anghenion lleol. Dylai canllawiau o'r fath gynnwys o leiaf y broses o bennu hyd contract, trefniadau monitro perfformiad ac ansawdd cadarn, darpariaethau i atal contractau rhag cael eu gwerthu ymlaen, a threfniadau ar gyfer rhoi'r gorau i gontract.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Rheoliadau'r GIG a gyflwynwyd yn 2006 yn cynnig y fframwaith cyfreithiol angenrheidiol i'r BILlau lofnodi contractau i ddarparu gwasanaethau orthodontig. Roedd y Rheoliadau'n rhagnodi cyfnod contract cyfnod penodol cychwynnol o 5 mlynedd o leiaf ar gyfer cytundebau orthodontig y GIG. Wedi i'r cyfnod cychwynnol ddod i ben, mae'r Rheoliadau'n gofyn am gontract sy'n rhagnodi hyd y cytundeb, ond nid yw'n gofyn am hyd penodol. Cyfrifoldeb y BILl fydd penderfynu ar hyd contractau yn dilyn trafodaeth gyda'r parti arall.

Mae Llywodraeth Cymru yn deall bod angen hyblygrwydd o ran hyd contractau ac mae'n ymwybodol bod rhai contractau orthodontig y GIG yn cael eu gosod am gyfnod o 7 mlynedd. Mae barn arbenigwyr yn awgrymu y dylid fod cysylltiad rhwng hyd contractau a pherfformiad a chyflawni canlyniad ansawdd, ac y dylid gosod cymalau mewn contractau i adlewyrchu'r materion hyn.

Mae'n rhaid i'r BILlau sicrhau bod proses gomisiynu drylwyr ar waith ar gyfer orthodonteg y GIG. Mae'n rhaid i'r BILlau fodloni eu hunain bod unrhyw broses sy'n ymwneud ag ailgomisiynu gwasanaethau deintyddol y GIG yn bodloni eu safonau llywodraethu corfforaethol mewnol.

Megis dechrau y mae'r gwaith o adolygu'r contract orthodontig. Bydd unrhyw newidiadau arfaethedig i'r contract yn cynnwys yr holl randdeiliaid allweddol fel Cymdeithas Orthodontig Prydain a bydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus helaeth.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.